

# CWLWM

Mudiad Chwiorydd  
Undeb Bedyddwyr Cymru

**MEDI**  
**2021**

Rhif 66

Golygydd:  
Einir Jones

Pris 50c





**Taflen Gyswilt Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru**

**Cynnwys**

***Golygyddol***

***Hazel Charles Evans***

***Tynnu Cataract***

***Seren Gomer Hydref 1821***

***Tabernacl, Pontarddulais***

***Pwy, Beth, Ble a Pham?***

***Fy Hoff Emyn.***

***Gardd Eden***

***Pontydd nid Muriau***

***Bynsen Americanaidd***

***Adroddiad yr Ysgrifennydd***



# Golygyddol

Yn ystod ton gyntaf y Pandemig yma fe ymddangosodd baner barhaol ar ddarn o fynwent Eglwys Sant Teilo, Llandeilo, ac roedd wedi ei gosod yn bwrpasol i wynebu pawb sydd yn gyrru i fyny'r allt heibio'r tai lliwgar. Mae'n dal yno heddiw a'r neges arni o ddau air – *Try Praying*.

Yn Efengyl Luc mae darn yn cofnodi geiriau'r Iesu ar y pwnc yma. Luc 18, 1 yw'r darn. Dweud y mae'r Arglwydd y dylai pobl weddio bob amser ac na ddylen nhw fyth anobeithio y cânt eu hateb. Dal ati, dyna'r peth meddai Iesu. Dal ati i weddio – bob amser. Dalifyndrwydd ysbrydol.

Mae'r Beibl cyfan yn llawn o adnodau ar y pwnc. Dyma jyst flas, sampl bach i chi.

Mae Duw yn clywed ein gweddïau (*Eseia 65,24 a Meica 7,7*); fe ddylen ni weddio'n wastadol (*1Thessalonïaid 5,17*); mae'r Ysbryd Glân yn siarad gyda Duw ar ein rhan pan weddiwn ni (*Rhufeiniïaid 8,26-27*); mae Duw yn ateb ein gweddïau (*Iago 5, 13-18, Mathew 7, 7-8*); sut mae gweddïo (*Mathew 6, 9-11 Luc 11, 2-4*).

Ffordd i gysylltu a chyfathrebu gyda Duw yw gweddi. Heb gyswllt allwn ni byth adnabod Duw. Mae'n weithred o ufudd-dod a pharch. Pan fyddwn ni'n gweddïo rydyn ni'n cydnabod mai Duw yw'r un Sanctaidd, ein Hachubydd hollalluog.

Mae gweddi yn newid pethau. Pan fyddwn ni'n gweddïo – fel y tystia saint yr oesoedd – rydyn ni'n cael nerth, doethineb, dewrder, cysur a chyfeiriad. Wrth weddio rydyn ni'n gweld Duw ar waith.

Mae gweddi yn newid bywydau ac amgylchiadau. Beth am roi cynnig arni drosoch eich hunan – nid gwrando ar rywun arall yn gwneud ar ddydd Sul yn unig ond cael 'go' ein hunan. Pwy wŷr pa wyrthiau ddigwydd os bydd pobl Duw yn troi ato ac yn gofyn am arweiniad yn y dyddiau rhyfedd ac ansicr yma yn hanes yr eglwys? (*2 Cronicl 7, 14*)

Credwch hyn neu beidio ond ddechrau Awst roedd hi'n '*slim pickins*' ar gyfer cwlwm Medi. Ond fe weddiâis i. Mwynhewch ddarllen yr hyn a anfonwyd ata'i trwy i Dduw ateb fy ngweddi.

Cofiwch anfon stwff ata'i ym Mawrth/Ebrill – pan fydd Duw yn eich procio!

Einir Jones (Gol.)

Os gareth gyfrannu i'r rifyn nesaf gydag erthygl, cerdd, emyn, hanes a.y.y.b., anfonwch i'r cyfeiriad arferol os gwelwch yn dda.

**Carn Inqli, 97 Ffordd y Coleg, Rhydaman. SA18 2BT**

Neu ebost:

[einir.jones@yahoo.co.uk](mailto:einir.jones@yahoo.co.uk) / [jtalfryn@yahoo.co.uk](mailto:jtalfryn@yahoo.co.uk)

---

## **Hazel Charles Evans**

Y tro cyntaf i mi glywed yr enw Hazel Charles oedd yn Eisteddfod Genedlaethol Penybont, 1998. Ar ôl un o'i deithiau ar y maes fe ddaeth John ataf a dweud ei fod wedi prynu bricsen neu ddwy. Roeddwn i wedi codi fy aeliau siwr o fod achos d'yw John ddim yn ddyn DIY, ond wedi talu yr oedd am gwpwl o frics i Batagonia. Wedyn y sylweddolais i pa mor bwysig oedd y brics hynny oherwydd yr oedd Hazel wrthi yn llwyddiannus fel arfer yn codi arian ac ymwybyddiaeth ar gyfer un o'i hoff achosion. Mae Canolfan Hazel Charles yn Esquel yn dyst i'w gweithgarwch a'i gweledigaeth.



*Y Ddiw. Hazel Charles Evans  
oddi ar glawr cefn  
ei llyfr "Siwrne 13"*

Bu farw Hazel ddechrau mis Gorffennaf eleni, ac mae'n anodd credu bod yr ymgyrchwraig danbaid a hynaws a diddorol a thalentog yma wedi ei thawelu gan afiechyd byr ond marwol. Brwydrodd yn ddewr yr erbyn yr un gelyn yn 2013 ac mae ganddi gyfrol ddiddorol iawn yn cofnodi digwyddiadau ei hoes cyn ac wedi Siwrne 13. Cyflwynwyd yr elw o'r gwerthiant i Uned Cancr y Fron, Ystafell Peony, Ysbyty Llanelli. Wedi ei buddugoliaeth a'r cofnodi a'r cyhoeddi a'r lawnsio aeth Hazel ymlaen gyda'i bywyd llawn a phrysur.

Yn aml pan yn gwranddo ar gyhoeddiadau capeli yn yr egwyl cyn y bregeth fe gawn glywed mai pwy oedd yn fy nilyn yn y pulpud yr wythnos ganlynol oedd Hazel Charles.

Dro arall darllen yn y Guardian a'r papur bro mai hi oedd y gwestai gyda Merched y Wawr a'r Clwb Cinio a nifer fawr o gyfarfodydd cyffelyb. Cefais y fraint o wrando arni yn annerch ein cwrdd Senana lleol ni unwaith ym mhwlpudd tyst bychan Soar, Llandyfan. Rwy'n dal i gofio ei disgrifiadau o Batagonia, yn bobl a thirwedd a thywydd ac yn sôn am ei hymdrechion llwyddiannus i gynnal cyrddau a chymun yn Seion, Esquel a dysgu Cymraeg i Sbaenwyr y Wladfa.

Mae ganddi nofel arbennig a gobeithiol wedi ei seilio ar ei phrofiadau yno er mai dychmygol yw holl gymeriadau Glas. Ac ar y diwedd mae geiriadur bach Sbaeneg-Cymraeg hynod ddiddorol yn dangos ei medrusrwydd ieithyddol. Roedd ambell i air Sbaeneg hefyd yn ymddangos yn ei sgwrs feunyddiol ac roedd hi'n hoff iawn o de y Wladfa – Mate.

Fe gawsom ni gwrdd arbennig un tro cyn y Clo yn y 'Free Church' – Cwrdd gweddi Eglwysi Rhyddion y dref yma. Trafod oedden ni i fod, trafod dyfodol capeli a cheisio dyfalu sut i gael gafael ar ryw fywyd ac egni newydd o rywle cyn ei bod hi'n rhy hwyr. Fe gawsom weld fideo i ddechrau – un effeithiol iawn gyda llaw a gynhyrchwyd gan Undeb yr Annibynwyr – ac yn y drafodaeth a ddilynodd fe ddywedodd Hazel – oedd yn aelod ac ymddiriedolwraig yng Nghapel y Gwynfryn, Rhydaman - ein bod wedi 'Sainffaganeiddio' ein bywydau a'n harferion a'n hadeiladau crefyddol. Gair da ac effeithiol iawn, yn enwedig gan feddwl beth sydd wedi digwydd dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf yn hanes ein haddoliad. Roedd Hazel yn gwybod ei hanes cofiwch ac yn falch o'i thraddodiad ac yn caru ei hiaith yn angerddol ac yn fodlon protestio a dweud ei barn yn ddiflewyn ar dafod, ond roedd sainffaganeiddio yn lladd medde hi, ac roedd hi'n hollol iawn wrth gwrs. Rhaid i iaith ac arferion crefydd fod yn gyfryngau bywiol a defnyddiol, dyna oedd ei chredo.

Y pethau gorau, y gwerthoedd gorau oedd yn mynd â bryd Hazel erioed. Roedd yn siaradwraig gyhoeddus er yn ifanc. O'i dechreuadau Bedyddiedig yn Soar, Llwynhendy hyd ei dyddiau olaf yn Llais yr Andes, Llandybie, bu'n driw i'w chenedl ac i'w Gwardwr. Gweithiodd i Gymdeithas y Beibl. Bu'n wraig gweinidog yn Llanboidy. Bu'n athrawes Gymraeg yn y Bryngwyn, Llanelli ac ym Mhatagonia. Cwmpodd mas gyda pholisi Cymraeg M&S. Roedd yn aelod o'r Orsedd – Urdd Ofydd gyntaf ac wedyn Urdd Derwydd. Ymddangosodd ar Dechrau Canu Dechrau Canmol. Gwraig amryddawn, fywiog, ar dân dros ei chred oedd hi ac rydym yn cydymdeimlo'n fawr a'i phriod, Parry ac a'r teulu oll.

Uwchben y lle tân yn Llais yr Andes, Llandybie, mae paentiad effeithiol iawn o hebog yn troelli mewn awyr felen uwch Carreg Cennen. Ar ddydd crasboeth ei hangladd ym mynwent Eglwys Sant Tybie, Llandybie, roedd hebog yn troelli yn yr awyr las glir, ddigwmwl tra roedd ei gwasanaeth angladd yn cael ei gynnal ar lan ei bedd. Allwn i ddim llai na meddwl am Gondor yr Andes yn troelli yn rhydd.

---

## **“Dydech chi ddim yn gweld yn ddigon da i yrru car”**

### **Tynnu Cataract**

#### **Buddug Medi**

Ar argymhelliad ffrind yn Wrecsam y byddaf yn gweld optegydd. Mae hynny'n gyfleus gan fod bws yn teithio drwy'r Bala (lle rwy'n byw) i Wrecsam bob dwy awr. Ac wrth gwrs, mae'r bws am ddim!

Ac felly y bu ym mis Ebrill eleni, er bod y Covid ar led, ond gan nad oeddwn am fentro ar gerbyd cyhoeddus, aeth ffrind â mi am yr archwiliad yn Wrecsam.

Bu'r archwiliad yn un manwl gan wraig na welais yn gweithio yno o'r blaen. Ei datganiad annisgwyl oedd “You have a cataract in your right eye. You should have it removed.” Gwyddwn nad oedd fawr o olwg yn fy llygad chwith ers blynyddoedd lawer. Dyma ffonio Ysbyty Spire, Yale, trannoeth a chael dyddiad i weld arbenigwr. Ffrind arall y tro hwn yn mynd a fi i gyfarfod llawfeddyg hawddgar, llawn hiwmor. “Dydych chi ddim yn gweld yn ddigon da i yrru car!” meddai Mr Ng. Doedd hynny ddim yn newydd annisgwyl. Sylwais trwy y cyfnod clo bod fy ngolwg yn gwanhau.

Roedd y llawfeddyg yn gweithio mewn dwy ysbyty – yn Abergele ac yn Wrecsam. Mae pobl y Bala wedi hen arfer mynd i siopa yn Wrecsam ond mae Abergele yn fwy dieithr. Heddiw mae claf sy'n cael gwared â charact yn yr ysbyty am 5 awr. Pan oedd fy nhaid, David Salisbury Davies, brawd y Parchedig J.S. Davies, Gweinidog Wdig, Crymoch a Blaenffos, yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed



ganrif, bu Taid yn ysbyty Maelor, Wrecsam am dair wythnos yn cael tynnu cataract!

Heddiw mae'r driniaeth ei hun yn cymryd ugain munud, a'r arhosiad cyfan fel y dywedais yn bum awr. Wrth i mi gael fy hebrwng i'r theatr cofiais Adnod y Dydd ar y Calendr: MAWRYGWCH YR ARGLWYDD GYDA MI. Salm 34 adnod 3. Roeddwn yn canu clodydd yr Arglwydd cyn y driniaeth! A'm gweddi oedd "Arwain y llawfeddyg wrth iddo drin fy llygad a llwydda ei ymdrech."

Ni theimlais unrhyw boen.

Anaesthetig lleol gefais o amgylch fy llygad.

"*Fancy seeing you here!*" meddai'r llawfeddyg. Seicoleg.

Roedd o am i mi ymlacio, a llwyddodd.

Cês fy hebrwng yn ôl i'r ystafell aros a oedd erbyn hyn wedi ei thywyllu ychydig rhag ofn i ormod o oleuni darfu ar sensitifrwydd y llygad fu dan driniaeth. Roedd dwy arall yn disgwyl eu tro yno.

Yn yr hanner tywyllwch dyma'r cinio yn cyrraedd. R'on i wedi dewis



*Buddug Medi*

o fwydlen eang ers y bore cyntaf – brechdan cyw iar a salad. Ac i bwddin, llond desgil o ffrwythau ffres. A phaned. Ardderchog, ni ellid gwell! Aeth gweddill y cwmni am y llawdriniaeth. Yna daeth Mr Ng atom a datgan "*All the operations today were a success!*"

"*Thank you!*" meddai'r tair ohonom fel un, ond ychwanegais i "*VERY MUCH!*"

Gosodwyd gorchudd clir dros fy llygad fel y gallwn weld y teledu a chynnwys yr oergell pan awn i adref. Syrthiais i gysgu, bu'n ddiwrnod hir.

\*

Cysgais tan y bore heb gwmni gweinyddes na chymorth neb. R'on i'n teimlo'n hollol atebol. Tynnais y cysgod fu'n gwarchod fy llygad a dyna syrpreis! Gwefr!

R'on i'n gweld popeth yn hollol glir heb sbectol na gwydr cyffwrdd (contact lens) na DIM!

**GWYRTH!**

Mae rhai o ddarllenwyr y Cwllwm yn cofio emyn mawr Ehedydd Iâl (1815-1899) a gyfansoddodd wrth gynorthwyo ar fferm yn Nyffryn Iâl a gweld merch y teulu yn marw o'r diciâu:

Er nad yw 'nghnawd ond gwellt  
A'm hesgyrn ddim ond clai  
Mi ganaf yn y mellt,  
Maddeuodd Duw fy mai.

*(Rhif 183, Caneuon Ffydd)*

Ac wedi i'r Ehedydd gael sbectol am y tro cyntaf yn Wrecsam cyfansoddodd englyn:

Gwelaf uwchlaw disgwyliad – y mynydd  
A'r manwellt heb eithriad.  
Chwain lu a chŵn y wlad  
A llau yng ngolau lleuad.

Gallaf finnau ddweud yr un peth!

---

## **Seren Gomer Hydref 1821**

Cefais yr wybodaeth ddiddorol yma gan Margaret Davies, Y Tabernacl, Caerfyrddin. Roedd wedi bod yn pori mewn hen rifynnau o Seren Gomer meddai wrthyf yn ei nodyn ac fe'i cynigiodd i mi i lanw cornel fach yn y Cwllwm. Rwy'n falch iawn felly i allu cynnwys y pytiau diddorol yma a sylwi nad yw'r natur ddynol wedi newid mewn dwy ganrif. Dyma hwy felly, gyda'u sillafu diddorol o 1821.

Mab Drwg

Roedd tad yn ceryddu ei fachgen am fai  
Yn llym ebai wrtho – a hynny yn glau  
“Ni fu gan un tad y fath blentyn erioed.”  
“Roedd un efo'm taid!” ebai'r mab yn ddioed.

Gyrrwyd llythyr atom i fynegu am briodas a gymerodd le yn Penboyr, ar y 9fed o'r mis diwethaf; eithr am nad adwaenom yr ysgrifenydd, ni a beidiwn gyhoeddi enwau y priodfab a'i dyweddi. Dywed y llythyr fod y mab ieuanc yn 90 mlwydd oed a'r briodferch rywbeth dros 20!!!

MR GOMER – y mae ym mhlwyf Llanfyrnach, swydd Benfro, weithiwr mewn hwsmonaeth, yn cynal gwraig a phlant trwy lafur diwyd a chaled, yr hwn sydd wedi derbyn SEREN GOMER er pan ymddangosodd, heb fod yn gyfranogol a neb ynddi. Yr oedd ef yn gnoiwr mygllys enwog am flynyddau, ond yn canfod na allasai (oblegid lliosogrwydd ei deulu a chaledi yr amser) hepcor arian i gael y ddau, penderfynodd fod heb fygllys, ac y mae gwedi llwyr ddiddychu ei hun oddi wrtho er yn ychwaneg na dwy flynedd; ac y mae yn dywedyd y bydd iddo fod eto wrth haner enllyn cyn bod yn amddifad o'r budd, y pleser a'r addysg y mae yn dderbyn yn nhudalenau SEREN GOMER. Ydwyf, Mr. Gomer, yr anheilyngaf o'ch meibion,

DEWI Ll-nf-rn-ch

---

## **Tabernacl, Pontarddulais**

**Rosemarie Eynon**

### **Hyd yma y cynorthwyodd yr Arglwydd nyni**

Mis Chwefror 1971 gwelwyd Eglwys y Tabernacl, Pontarddulais dan ei sang, gydol yr wythnos, i ddathlu canmlwydd yr achos o dan arweiniad y diweddar annwyl Barch. D. Carl Williams. Dyma '*oes aur*' y Tabernacl.

### **Dathlu**

Roedd trefniadau wedi eu gwneud i ddathlu canmlwydd a hanner eleni ond yn anffodus oherwydd cyfyngiadau y 'Covid', ni fu hynny yn bosibl. Yn lle, cafwyd gwasanaeth arbennig i'r aelodau yn unig a 'da oedd bod yno'.



*Capel Tabernacl Pontarddulais*

## **Y Dechreuadau**

Nos Sul, Ionawr 27ain 1871 yr agorwyd y capel am y tro cyntaf, a diddorol nodi mai'r gost o adeiladu'r capel oedd £756 a chwe swllt! Dyma'r Eglwys Fedyddiedig gyntaf ym Mhontarddulais. Gollyngwyd ugain o aelodau Sardis, Llanedi ac ugain o Garmel, Pontlliw i sefydlu'r Tabernacl.



*Y Diw. Barchg. D. Carl Williams.  
Llun trwy ganiatad Ebeneser Rhydaman.*

Dros y blynyddoedd gwelwyd saith o weinidogion yn llafurio yn y winllan. Ers 1998 mae'r Tabernacl wedi bod heb fugail ond mae'r gwasanaethau y mynd ymlaen yn wythnosol yn ddiflino, hwylus a bendithiol. Er bod rhif yr aelodau wedi lleihau yn rhyfeddol ry'n ni'n ffodus iawn yn y Tabernacl i fod fel un teulu 'yn gytun yn yr un lle.'

Mawr yw ein braint o gael byw i weld canmlwydd a hanner o waith yn enw'r Meistr Mawr wedi ei gwblhau.

A beth am y dyfodol? Wynebwn yr her â chalonnau yn llawn diolch am ymdrechion y saint yn y blynyddoedd a fu. Awn ymlaen eto ar lwybr profiad a gwasanaeth. Ein cyfrifoldeb ni yw cadw'r drysau yn agored fel y 'bydd ffrindiau Newydd Iesu / yma'n sôn amdano Ef.'

---

## **Pwy, Beth, Ble a Pham?**

1. Ble roedd cartref a busnes Saccus? (Luc 19)
2. Pwy anfonodd lythyr i'w gŵr ynghylch Iesu? (Mathew 27)
3. Beth oedd enw gwreiddiol Bethel? (Genesis 28)
4. Ble roedd cartref Corneliws? (Actau 10)
5. O ble roedd Goliath yn dod? (1Samuel 17)
6. I ble symudodd Abraham gyntaf wrth adael Ur y Caldeaid? (Genesis 11)
7. Pam y gosodwyd 12 carreg yn yr Iorrdonen gan Joshua? (Joshua 4)
8. Ble claddodd Moses gorff yr Eifftiwr a laddodd? (Exodus 2)
9. Beth oedd enw'r cae brynwyd gan yr offeiriad gydag arian Jiwdas? (Mathew 27)
10. Ble roedd cartref Jeremeia? (Jeremeia 1)
11. O ble roedd Phillip yn hannu? (Ioan 1)
12. Ar ba ynys roedd Ioan wedi ei garcharu? (Datguddiad 1)

13. Ble yn union mae Tarsus? (Map, cefn y BCN)
14. Beth oedd enw un o'r cerddwyr ar ffordd Emmaus? (Luc 24)
15. Beth oedd enw gwraig Cleopas? (Ioan 19)
16. Ym mhle y trodd Iesu'r dŵr yn win? (Ioan 2)
17. Ble roedd Ffynnon Jacob? (Ioan 4)
18. Beth oedd enw'r Palmant lle'r eisteddai Peilat i farnu? (Ioan 19)
19. Offeiriad ble oedd Jethro? (Exodus 3)
20. Enwch un arall o awduron y Salmau – heblaw Dafydd. (Salm 50)
21. Meibion pwy oedd Alexander a Rufus? (Marc 15)
22. Beth oedd enw ewyrth Ioan Marc? (Actau 13)
23. Beth oedd Amos wrth ei alwedigaeth? (Amos 7)
24. Pwy roddwyd i Dduw yn blentyn bach. Eli oedd yr offeiriad ar y pryd yn Seilo. (1 Samuel 1)
25. Beth oedd enw'r llong yr hwyliodd Paul a Luc arni o Gyprys i Rufain? (Actau 28)

(Atebion ar dudalen 17)

---

## **Fy Hoff Emyn**

**Rosemarie Eynon**

**Wele, Cawsom y Meseia**

Emyn Dafydd Jones o Gaio sy'n mynd â'r bri am y geiriau a genir ar y dôn Wyddgrug gan John Ambrose Lloyd – ac fe gyfansoddodd y dôn hon meddir, pan oedd yn un ar bymtheg oed.

Er ein bod yn cysylltu y garol yma ag adeg y Nadolig, neu yn fwy manwl adeg y Plygain, yn Llawlyfr Moliant y Bedyddwyr, dod o dan yr emynau cyffredinol y mae.

Fi'n siwr fy mod wedi ei chanu hi nifer o weithiau pan yn blentyn bach ar adeg yr Adfent, ond y cof cyntaf sydd gen i o'i chanu oedd yn yr wythnosau yn arwain lan i'r Nadolig.

Bu traddodiad yn y Tabernacl, Capel y Bedyddwyr ym Mhontarddulais, i fynd allan i ganu carolau i'r henoed a chleifion a oedd yn aelodau. Fe fyddai tua pymtheg ohonom yn mynd allan, a dwy ferch fach – fi a fy ffrind sydd bellach yn Drysorydd y Tabernacl. Dyna beth oedd 'treat'! Mynd allan i ganu carolau ac yn galw am 'chips' i orffen y noson! A dyna ble byddem yn canu a chael ein harwain gan y codwr canu ac un o organyddion y Tabernacl, sef y diweddar annwyl Brinley Lewis.

Unwaith y byddem yn canu 'Wele Cawsom y Meseia' teimlwn rhyw wefr yn cydio ynof. Mae hynny bron i hanner canrif yn ôl erbyn hyn. Yr un wefr sy' gyda fi heddiw wrth ei chanu a'i chlywed bob Nadolig – er nad yw'r aelodau yn rhannu'r un wefr â mi wrth ei chanu bob dydd Sul yn mis Rhagfyr!

Mae geiriau Dafydd Jones yn dweud y cyfan am y Meseia – ei ddyfodiad, ei fywyd ar y ddaear hon lan i Groes Calfaria a'i aberth drosom –

Iesu yw Gwir Fab Duw  
Ffrind a Phrynwr dynol-ryw.

---

## **Gardd Eden**

Pan oedd John yn olygydd Seren Cymru – flynyddoedd yn ôl bellach wrth gwrs – ac yn brin o stwff fel arfer, cafodd syniad i ysgrifennu erthygl fer ar Ardd Eden. Nid un Genesis ond un Abergwili. Doeddwn i – a fagwyd yn y gogledd – erioed wedi clywed am y lle wrth gwrs ond i bobl leol sir Gaerfyrddin a De Cymru yn gyffredinol, fe ganodd yr erthygl fach glychau soniarus a hiraethlon.

Er nad oedd y baradwys yn bod bellach ar Heol Castell Pigyn, Abergwili, gallai nifer o ddarllenwyr (gan gynnwys Ysgrifennydd Ebeneser Rhydaman bryd hwnnw, Mrs. Eurian Bowen) gofio bod yn yr ardd yn ystod y pumdegau a'r chwedegau cynnar hefyd o bosib ac fe gafwyd sawl ymateb ar lythyr, a sgwrs a galwad ffôn, gan rai oedd

yn cofio mynd yno i'w gweld. Fe gawsom ni hyd yn oed lun cerdyn post o'r fan gan rywun darbodus oedd wedi cadw trysorau ddoe. Erbyn heddiw mae hi lawer yn haws dod o hyd i hen gardiau post ar y We (mae eBay yn dda) ac fe gefais lawer mwy o lwc nac a gafodd John bryd hynny yn chwilota am dystiolaeth weledol. Fe ddes i hefyd o hyd i lun o'r pumdegau cynnar o grŵp o ferched o ddosbarth capelyddol yn Esgair Nant, Talylychau a aeth ar wibdaith yno. Fe allen nhw fod yn unrhyw fan yng Nghymru cofiwch, o'r Marine Lake i Ynys y Barri i Butlins, Pwllheli oherwydd does dim arlliw o'r ardd i'w gweld tu ôl i'r grwp, ond fe gymerwn ni eu bod hwy a'u hathro yn eirwir. Ewch ar y Wê i chwilota ac fe gewch eu gweld drosoch eich hunan.

Ceir sôn yn y cylchgrawn diddorol Gerddi – sydd ar y Wê ar hyn o bryd beth bynnag - am Ardd Eden Abergwili. Mae hi yno wedi ei henwi ymhlith gorchestion garddyddol artistig eraill fel Gwydir, Erddig a Thŷ Mawr, Llangollen ac mae nodyn byr ond diddorol yn gofnod am y fan. (Tudalen 87, ac mae lluniau hefyd.) Tynnwyd rhai o'r lluniau sydd ar gael ar gyfer eu gwerthu gan y perchennog ei hunan ar y pryd os rwy wedi deall yn iawn, ac mae John yn cofio ei bod yn bosib prynu Hufen Iâ yn y tŷ – os yw ei gof yn gywir hynny ydyw.



*Gardd Eden*

*Llun: [www.pinterest.co.uk](http://www.pinterest.co.uk)*

Ymhlith y llwyni a dorrwyd i ffurfiau Beiblaidd yn y gerddi eang gynt y mae gorymdaith y creaduriaid i Arch Noa, Adda ac Efa a'r sarff wrth gwrs, Ffoi i'r Aifft, Y Swper Olaf, Y Croeshoeliad a phen



Ioan Fedyddiwr yn cael ei gyflwyno ar blat i Salome. Ewch i chwilio ac fe welwch ragor. Ond chwilio ar y cyfrifiadur fydd raid i chi wrth gwrs oherwydd mae gerddi Glyn Aur fel roedden nhw wedi diflannu a'r llwyni wedi eu diwreiddio a'u chwalu erbyn hyn efallai. Does dim sôn bod neb yn mynd yno i'w gweld heddiw beth bynnag. Efallai bod rhai ohonynt wedi dychwelyd i'r gwyllt ac wedi ffurfio'n gloddiau a llwyni llawn twf cofiwch.

Ond diolch am atgofion a hen bostcards a thripiâu teuluol ac Ysgol Sul ddyddiau fu. A diolch am y Beibl a fu'n ysbrydoliaeth i'r garddwr cywrain ac amyneddgar gynt hefyd.

---

## **Atebion y Cwis ar dudalennau 13 ac 14**

1. Jerico : 2. Gwraig Peilat : 3. Lus : 4. Cesarea : 5. Gath : 6. Haran :
7. I gofio bod Duw wedi sychu'r Iorddonen i'r genedl gael croesi i Wlad yr Addewid. :
8. Yn y tywod : 9. Aceldama (Maes y Gwaed) : 10. Anathoth : 11. Bethsaida : 12. Patmos :
13. Heb fod ymhell o arfordir dwyreiniol Twrci, dan gysgod Mynyddoedd yr Atlas.
14. Cleopas : 15. Mair : 16. Cana, Galilea :
17. Sychar. Hen enw'r lle oedd Shechem. :
18. 18. Gabbatha : 19. Midian : 20. Asaph :
21. Simon o Cyrene : 22. Barnabas – yr oedd yn frawd i'w fam. :
23. Bugail, a thendiwr ffigys gwylltion/garddwr coed sycamor :
24. Samuel :
25. Yr Efeilliaid Nefol, Castor a Pollux.

# Pontydd nid Muriau

Trosiad o'r gerdd *Bridges not Walls*  
gan Betty Jones, Wrecsam  
yn dathlu gwaith yr Arlunydd Luke Jerram

## Salm 133



Mae pontydd yn cysylltu  
Dros ddyfroedd a thros dir,  
O feini ac o fetel  
Ac mae'u parhad yn hir.

Mae rhai yn enwog ddigon,  
Yn agos ac ymhell.  
Rhai gofiwn gyda hiraeth,  
Yn ôl mewn dyddiau gwell.

Ond mae un bont groesawgar  
Lle daw cenhedloedd byd  
I ganol tref Llangollen  
Fu'n llawn o gân i gyd.

Ac er tawelu'r tannau,  
A'r lleisiau'n fud gan bla  
Mae'r bont dan drwch o liwiau  
A'i gobaith a barha.

Mae'r bont hon yn wahanol,  
Daeth sgwariau o sawl gwlad  
A ffrindiau dros derfynau  
Yn rhannu'u dawn yn rhad.

Nid mur a godwyd yma,  
Ni phwythwyd rhwystrau mawr,  
Llawenydd oedd ei angen,  
Goresgyn wnaed yn awr.

A phontydd sydd yn uno  
Holl bobl drist y byd,  
I groesi at ein gilydd  
Â gwen ar wyneb pryd.

A phont o weddi gyson  
A godwn yn gytun  
Gan estyn llaw bob amser,  
Fel gwnaeth Gwardwr Dyn.


# Bynsen Americanaidd



llun: [www.bing.com](http://www.bing.com)

- ◆ 6 cwpanaid o Flawd Codi
  - ◆ 4 owns a hanner o Farjarin
  - ◆ Pinsiad o halen
  - ◆ 3 cwpanaid Caster Sugar
  - ◆ 3 cwpanaid o ffrwythau cymysg (Syltanas, Cwrens, Ceirios)
  - ◆ Llund llwy de a hanner o Sbeis Cymysg
  - ◆ 3 wy
  - ◆ Cwpanaid a hanner o lefrith/llaeth
- 
- ◆ Ffwrn 170/ Ffan 150/ Nwy 4
  - ◆ Leiniwch ddau dun torth 1 pwys yr un
  - ◆ Dodwch y blawd, halen, a'r Marjarin mewn bowlen a'i droi yn friwsion trwy ei rwbio (Peidiwch defyddio cymysgydd – bysedd!)
  - ◆ Cymysgwch y siwgrwr a'r sbeis i mewn yna'r ffrwythau
  - ◆ Ychwanegu dau ŵy ac yna'r llaeth/llefrith
  - ◆ Tywalltwch i'r ddau dun teisen.
  - ◆ Coginiwch am 50 munud - 1 awr ar silff ganol y ffwrn

Wedi i'r fynsen oeri, torrwrch yn dafellau. Rhown fenyn ar bob tafell a'i fwynhau. (Rosemarie Eynon)



## **Adroddiad yr Ysgrifennydd**

Y Chw. Bonni Davies

### **Cyfarchion cynnes i ddarllenwyr ffyddlon y Cwllwm!**

Er mai ond pedwar mis sydd oddi ar y rhifyn diwethaf o'r Cwllwm, ac er ein bod yn parhau heb fod yn rhydd o'r hen bandemig, mae gyda ni rywfaint o ddiweddariadau i chi fel Mudiad.

**Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru** - Y digwyddiad cyffrous cyntaf oedd yr achlysur pan ddyrchafwyd un o aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac un o gyn lywyddion y Mudiad i Lywyddiaeth Undeb Bedyddwyr Cymru. Dyrchafwyd y chwaer Aldyth Williams, aelod yn Seion Newydd Treforys, yn Llywydd yr Undeb mewn oedfa arbennig a gynhaliwyd i nifer cyfyngedig o bobl yn Seion Newydd ar 8fed Mehefin. Cynrychiolwyd y Mudiad yn cyfarfod gan ein his-lywydd Ruth Davies, am iddi fod yn haws iddi hi deithio yno o Gaerdydd nag i'n llywydd Eleri Lloyd Jones deithio o'r Gogledd. Mae'r Mudiad yn llongyfarch Aldyth wrth reswm ac yn ymfalchïo fod un arall o'i chyn llywyddion wedi camu i Lywyddiaeth yr Undeb. Nid yw hyn yn beth newydd gan i dair arall o'i chyn llywyddion dderbyn y frain. Efallai bod Cyfarfodydd y Mudiad yn feithrinfa dda ar gyfer yr 'uchel arswydus swydd'. Hoffwn ar ran chwirydd y Mudiad, ddymuno bob bendith iddi ym mlwyddyn ei llywyddiaeth.



**Adroddiad y Mudiad i'r Undeb** - Cynhaliwyd Cyfarfod Busnes Blynyddol yr Undeb drwy gyfrwng fideo gynadleda Zoom ar 21ain Mehefin ac yn ôl yr arfer cafwyd cyfle i gynnwys adroddiad y Mudiad yn yr Adroddiad Blynyddol a chyfle hefyd i ddwyn adroddiad byr ar lafar a chyflwyniad Pwynt pŵer yn y cyfarfod. Bu hynny'n gyfle arbennig i ddiolch i Eleri Lloyd Jones, y llywydd cyfredol am fodloni i ddal ymlaen yn y swydd am flwyddyn arall ac efallai dwy. Dylai'r chwaer Ruth Davies, ein his-lywydd, fod wedi camu mewn i'w hesgidiau nôl ym Medi 2020 ac nid oeddem yn gwybod ar y pryd a fyddai'n gwneud ym Medi 2021 ychwaith ond roedd Eleri wedi bodloni parhau yn y swydd os na fyddai. Diolchwyd i'r ddwy am eu cydweithrediad a'u hamynedd.



**Y Llywydd, Eleri Lloyd Jones**



**Ruth Davies, yr Is-lywydd**

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Mudiad 2021** - Yn dilyn arolwg bach ymysg aelodau'r Pwyllgor Gwaith, ystyriwyd y posibilrwydd o allu cyfarfod ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Mudiad eleni, os nad yn y cawd, yna o leiaf trwy gyfrwng Zoom. Penderfynwyd peidio cyfarfod yn y cawd, ond ar 29ain Orffennaf, bu'n hyfryd dros ben cael gweld ein gilydd unwaith eto - er mai ar y sgrin fach yr oedd hynny. Sylweddolwyd wrth reswm nad oedd cynnal cyfarfod fel hynny'n ddelfrydol i bawb ond ni fyddai teithio i Benrhyn-coch wedi bod yn ddelfrydol i bawb ychwaith.

**Colledion** - Bu'r Cyfarfod Blynyddol yn gyfle arbennig i gofio teuluoedd aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a gollwyd oddi ar y Cyfarfod Cyffredinol diwethaf yn 2019, sef y ddiweddar Barchedig Mair Bowen a'r ddiweddar chwaer Einwen Jones. Cofwyd hefyd am y rhai yn ein mysg oedd wedi colli anwyliaid.

**Adroddiad Ariannol a Dosbarthu Rhoddion** – Nodwyd i'r sefyllfa ariannol wneud gwahaniaeth i gasgliadau'r Dydd Gweddï ac i'r nifer o eglwysi a oedd wedi anfon tâl aelodaeth, ond diolchwyd i'r rhai oedd wedi gwneud. Yn dilyn adroddiad ariannol gymharol gadarnhaol gan y trysorydd Hazel Williams Jones, cytunwyd yn unfrydol ein bod yn rhoi rhodd o £1,000 i gartref Glyn Nest oherwydd y sefyllfa anodd yr oeddent wedi bod drwyddi yn ystod y pandemig.

**Glyn Nest:** Cafodd y chwaer Mair Roberts, ysgrifennydd y Pwyllgor Tŷ, gyfle i ddiolch am gonsyrn a gweddïau pawb dros y cyfnod anodd yr aeth y cartref drwyddo oherwydd Covid-19. Collwyd rhai o'r deiliaid a bellach dim ond 21 oedd yno. O ran y staff, bu'n rhaid i Cherry, y Swyddog Adloniant, ymddiswyddo am iddi gael ei tharo'n wael gyda'r covid ac yn dal i ddiodef. Fe fyddai'r cartref yn fythol ddiolchgar iddi am ei chyfraniad gwerthfawr ar adeg dyngedfennol, pan oedd pob aelod arall o'r staff wedi mynd lawr gyda covid. Bellach roedd y cartref yn rhedeg yn esmwyth, y staff nôl yn y gwaith, a llawer o staff newydd yn cael eu recriwtio. Am fod colli dau Ddydd Agored wedi bod yn ergyd ariannol drom, apeliodd ar yr eglwysi i gofio am y cartref.

**Cwlwm** - Roedd aelodau'r Pwyllgor Cyffredinol yn ddiolchgar iawn am y llwyddwyd i gynhyrchu tri rhifyn o'r Cwlwm yn ystod y cyfnod clo i'w hanfon allan ar e-bost a'u rhoi ar wefan yr Undeb. Diolchwyd am gyfraniad pawb ac yn arbennig cyfraniad Einir Jones y golygydd. O ran Cwlwm Medi 2021, cytunwyd rhoi'r Cwlwm ar y we unwaith eto ac argraffu nifer cyfyngedig yn unig, gan eu hanfon i'r rhai oedd heb fynediad i'r we. Bwriedir cysylltu hefyd gyda'r personau oedd yn dosbarthu'r Cwlwm i weld pwy fyddai angen copïau printiedig ac argraffu'r rheiny'n unig.

**Cyfarfodydd Blynyddol 2021** - Rhoddwyd cyfle i bawb leisio barn ynghylch a fyddai modd cynnal y Cyfarfod Blynyddol eleni ac os fyddai, ym mha fodd. Cyflwynwyd mwy nag un awgrym ac yn dilyn trafodaeth frwd, cytunwyd:

- (a) Gohirio'r cyfarfod am flwyddyn arall er mwyn diogelwch pawb.
- (b) Cynnal cyfarfod byr ar zoom am 2 o'r gloch ddydd Mercher,

15fed Medi 2021, dan ofal Ruth Davies, a chroeso cynnes i bawb

**Ethol Is-lywydd ar gyfer 2022-2023** - Atgoffwyd aelodau'r Pwyllgor Cyffredinol mai tro Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion oedd dewis is-lywydd am 2022-23. Ni ddaeth enw gerbron hyd yma, ond gobeithir am ganlyniad cadarnhaol erbyn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth.

**Prosiect Y Mudiad** – Atgoffir pawb y dewiswyd ‘Gofal’ fel thema’r Prosiect nesaf, gyda phob Cymanfa’n gyfrifol am greu deunydd ar ei gyfer. Derbyniwyd eisoes un oedfa gyfan, diolchir amdani, ac anogir y gweddill i fynd ati ar fyrder. Os oes gan unigolyn unrhyw beth a fyddai’n addas ar gyfer y prosiect, fe fyddai’r ysgrifennydd yn falch i glywed oddi wrthynt. Penderfyniad y pwyllgor oedd y dylid anelu at ei gael yn barod erbyn mis Medi 2022 i’w lansio yng Nghyfarfod Blynyddol Caerdydd.

**Gwau a gwnïo** - Mae’r ymgyrchoedd yn parhau ac mae’n amlwg fod y cyfnod clo wedi bod yn gyfnod delfrydol i fynd ati gan y derbyniwyd llawer iawn o ddeunydd. Diolch o galon i bob unigolyn ac eglwys am eich cyfraniadau.

**Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd** – Dyddiad y Cyfarfod Gweddi eleni yw Tachwedd 1af. Mae’r oedfa Saesneg wedi cyrraedd yn ddiogel a diolchir i’r Parchg Jill Tomos am gytuno i’w haddasu a’i chyfieithu ar gyfer cynulleidfaoedd eglwysi Cymru eleni eto. Gobeithir, erbyn hynny, y byddwn yn gallu ymgynnull ynghyd yn y cnawd, os na fyddwn yn gallu uno mewn addoliad, gellid unwaith eto gynnal oedfaon trwy gyfrwng zoom. Thema eleni yw ‘Bywyd Dewr’, gan ganolbwyntio ar Hebraeid 13, adnod 6: “Am hynny dywedwn ninnau’n hyderus, ‘Yr Arglwydd yw fy nghynorthwywr ac nid ofnaf.’”

**Adroddiadau’r Cymanfaoedd** - Bydd cynrychiolydd bob Cymanfa’n adrodd nôl am eu gweithgareddau i’r Cyfarfod Cyffredinol yn flynyddol. O dan yr amgylchiadau presennol, nid oedd disgwyl derbyn adroddiadau eleni ond hyfryd iawn oedd derbyn adroddiad llawn gan Ruth Davies o weithgareddau chwiorydd diwyd Tabernacl Caerdydd. Braf hefyd oedd deall fod chwiorydd y Cymanfaoedd yn cadw cyswllt rheolaidd a’i gilydd dros y cyfnod clo ac i rai drefnu cyfarfodydd Zoom ar gyfer Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddiedig y Byd.